# DAVIES, OWEN (1719 - 1792), gweinidog Annibynnol yn Nhrelech, etc.;

**Enw:** Owen Davies
**Dyddiad geni:** 1719
**Dyddiad marw:** 1792
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Oliver Stephens

Ganwyd mewn coty bychan, lle yr oedd melin ban, ar dir Erwyon, yn ymyl Ffaldybrenin. Ymunodd yn ieuanc â'r eglwys yng Nghrofft y Cyff (Annibynnol), dechreuodd bregethu yn 24 oed, urddwyd ef yno yn 1743 a llafuriodd yn gymeradwy fel gweinidog ac ysgolfeistr hyd 1765, pryd y galwyd ef i Gapel y Graig, Trelech. Bu'n dra llwyddiannus yno am dros 20 mlynedd.

Yn 1787 bu ymrafael yn eglwys Gland r ynghylch yr athrawiaeth a disgyblaeth eglwysig. Barnai rhai fod y Parch. John Griffiths yn rhy Galfinaidd. Diarddelwyd tua 17 o aelodau a dueddai at Arminiaeth. Ystyriai Owen Davies fod y ddisgyblaeth a weinyddwyd arnynt yn rhy galed ac arwyddodd barodrwydd i'w derbyn i eglwys Trelech. Safodd yr eglwys yn erbyn hyn er na chyhuddid ef o ddal yr un golygiadau â'r blaid. Aeth nifer bychan allan gydag ef a phregethai iddynt yn ei d ei hun yn y Dinas. Yn 1787, wedi codi capel Rhyd-y-parc, rhwng Trelech a Sain Clêr a thua naw milltir o'r lle olaf, aeth i weinidogaethu yno a pharhau hyd ei farw, 6 Gorffennaf 1792. Troes y gynulleidfa yn raddol yn Ariaid ac yna'n Undodiaid.

Tua diwedd ei oes amlygodd awydd am gyfannu'r rhwyg. Dymunodd gael ei gladdu ym mynwent Capel y Graig, ac felly y bu er i fedd gael ei dorri iddo yn Rhydyparc. Codwyd capel newydd yn 1860, yn ystod gweinidogaeth Titus Evans, ond edwinodd yr achos a darfod yn y naw degau.

## Awdur

**Y Parchedig Athro John Oliver Stephens**, (1880 - 1957)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 400, 555-6

*Y Tadau Anibynnol* (Caernarfon 1898–1900), ii, 158-9

*Yr Ymofynnydd*, 1884, 123-4, 279; 1930, 21-6

*Carm. Welshman Antiq. Notes*, 15 Rhagfyr 1905


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734044


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu